Cyngor Cymuned

L L A N G Y N I N

Community Council

CLERC I'R CYNGOR

Graddau cyflog NJC (LC2 Pwynt 18) £12.98/awr
(4.5 awr y mis)

Gofynnir am geisiadau oddi wrth ymgeiswyr addas ar gyfer y swydd o Glerc i'r Cyngor Cymuned.

Clerc y Cyngor fydd Swyddog Priodol y Cyngor ac felly mae o dan ddyletswydd statudol i gyflawni'r holl swyddogaethau, ac i gyflwyno neu gyhoeddi'r holl hysbysiadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith gan Swyddog Priodol awdurdod lleol. Bydd y Clerc yn gwbl gyfrifol am sicrhau bod cyfarwyddiadau'r Cyngor mewn cysylltiad â'i swyddogaeth fel Awdurdod Lleol yn cael eu cyflawni. Disgwylir i'r Clerc gynghori'r Cyngor ar bolisïau cyffredinol, a datblygu polisïau i'w dilyn mewn perthynas â gweithgareddau'r Awdurdod a chynhyrchu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol a gweithredu pob penderfyniad yn adeiladol. Bydd y person a benodir yn atebol i'r Cyngor am reoli ei holl adnoddau'n effeithiol a bydd yn adrodd i'r Cyngor yn ôl yr angen. Y Clerc fydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ac yn gyfrifol am holl gofnodion ariannol y Cyngor a gweinyddu ei gyllid yn ofalus.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg ac mae sgiliau dwyieithog yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

I gael rhagor o wybodaeth neu becyn cais, ewch i llangynincc.co.uk neu gysylltwch ag Emma Smith ar 07583 036869 i gael sgwrs anffurfiol neu e-bostio llangynin@gmail.com

Ceisiadau i'w cyflwyno drwy e-bost llangynin@gmail.com erbyn **28 Mawrth 2021**.